

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Cyd-Pwyllgor Dethol held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK - County Hall, The Rhadyr, Usk on Dydd Iau, 5ed Medi, 2019 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: L. Brown, R. Edwards,
M. Groucutt, R. Harris, D. Jones, M. Lane,
T. Thomas, S. Woodhouse and P. Clarke

Also in attendance County Councillors:

Officers in Attendance

Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a
Llywodraethiant
Julie Boothroyd, Chief Officer Social Care,
Safeguarding and Health
Richard Jones, Rheolwr Perfformiad
Eve Parkinson, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion
Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant
Sophie Cook, Business Support

APOLOGIES: Councillors A. Davies, M. Powell and M. Fowler (Parent Governor Representative)

1. Ethol Cadeirydd

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer y Cadeirydd. Y Cynghorydd Tudor Thomas oedd yr unig enwebai ac fe gafodd ei ethol yn briodol i swydd y Cadeirydd.

2. Penodi Is-gadeirydd

Ceisiwyd enwebiadau ar gyfer yr is-gadeirydd. Y Cynghorydd Frances Taylor oedd yr unig enwebai ac fe gafodd ei hethol yn briodol i swydd yr is-gadeirydd.

3. Datganiadau o Fuddiant

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Ni wnaeth unrhyw aelod o'r cyhoedd annerch y Pwyllgor fel rhan o'r fforwm agored cyhoeddus.

5. Cynllun Corfforaethol: Dal Aelodau'r Cabinet i gyfrif ar berfformiad ac alinio'r ddarpariaeth gwasanaeth â'r cynllun corfforaethol

3. Nodau'r Cynllun Corfforaethol a Mesurau Perfformiad Cenedlaethol

- Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Perfformiad. Esboniwyd bod yr adroddiad yn cwmpasu'r 22 o bethau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w cyflawni erbyn 2022 fel rhan o'i bum amcan llesiant o fewn y Cynllun Corfforaethol.
- Mae'r adroddiad yn ymdrin â chynnydd yn erbyn yr amcanion sydd fwyaf perthnasol i'r Pwyllgorau Dethol Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc ac yn dangos sut y maent yn cyfrannu at y nodau cenedlaethol a nodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ceir asesiadau yn erbyn yr amcanion cyffredinol a'r camau unigol yn yr adroddiad.

Herio gan Aelodau

- Cafwyd her ynghylch y broses ar gyfer pennu lefel yr asesu. Esboniwyd bod y penderfyniadau hyn yn cael eu llunio drwy ddefnyddio fframwaith hunan-werthuso'r Cyngor. Cyfunwyd pob cam a aseswyd ac yna'r asesiad o gamau gweithredu unigol er mwyn rhoi asesiad cyffredinol sy'n gweithredu fel dyfarniad cryno ar lefel uwch.
- Heriwyd y lefel a aseswyd o berfformiad 'digonol' a neilltuwyd ar gyfer y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Clywodd yr Aelodau, er nad oedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4, yn y fan lle'r oeddem am iddynt fod yn 2018, roedd perfformiad cyffredinol yn y cyfnod sylfaen yn parhau'n uchel tra bod gwelliant wedi'i wneud yn lefelau 2 a 3 ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel ddisgwyliedig +1. Atgoffwyd yr Aelodau y byddai adroddiad ar Dŷ Mounon yn dod yn ôl i'r Pwyllgor yn ddiweddarach ym mis Medi. Clywodd yr Aelodau hefyd na fu gostyngiad yn arian yr AALI ar gyfer cynorthwyr addysgu ac y bydd yn parhau felly pan fydd plant yn bresennol gyda lefel o angen sydd wedi'i asesu'n glir.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd problemau o ran y cysylltiadau rhwng addysg ac iechyd ym maes iechyd meddwl pobl ifanc. Clywodd yr Aelod am y 'Model Mynydd Iâ' o ddarpariaeth ar gyfer asesu ac ymyrryd yn gynnar a ariannwyd gan y gronfa trawsnewid.
- Gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion ynghylch pam nad oedd y perfformiad yn 2018 ar y lefel ddisgwyliedig ac fe'u hatgoffwyd bod y data hwn wedi cael ei archwilio yn ystod y deuddeg mis diwethaf mewn nifer o feysydd. Clywodd yr Aelodau hefyd gan yr Aelod Cabinet a eglurodd ychydig o'r gweithgaredd a gyflwynwyd i gynorthwyo dysgwyr agored i niwed i gael cymorth wedi'i dargedu ym mlwyddyn 11.
- Codwyd her ynghylch a ellid diwygio'r cynllun corfforaethol i gefnogi Ysgol Tŷ Mounon. Ymatebodd yr Aelod Cabinet y bydd y Cabinet yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu haddysgu yn yr amgylchedd mwyaf priodol.
- Heriodd yr Aelodau'r asesiad o'r amcan Lles Gydol Oes fel 'da', er enghraifft gan fod llai o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Clywodd yr Aelodau gan yr Aelod Cabinet fod cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod cyfleoedd ar gael, er enghraifft drwy ein canolfannau hamdden a gynhelir, ac mewn rhai achosion, eu huwchraddio a hefyd gynnal digwyddiadau fel Gemau Sir Fynwy.
- Heriodd yr Aelodau'r penderfyniad i gadw gwasanaethau twristiaeth, hamdden a diwylliant yn fewnol yn dilyn faint o adnoddau a ddefnyddiwyd i baratoi'r achos busnes. Clywodd yr Aelodau gan yr Aelod Cabinet na ddylai'r awdurdod fod ofn arloesi a rhoi cynnig ar wahanol bethau, ond weithiau byddwch yn dilyn opsiynau, yn rhoi pwysau arnynt ac yn penderfynu peidio â dilyn llwybr penodol. Cyfeiriwyd at Ganolfan Hamdden Trefynwy fel enghraifft o sut y gall gwasanaethau ffynnu'n fewnol.
- Cododd yr Aelodau gwestiwn ynghylch a oedd Aelodau'r Cabinet mor heriol o swyddogion ag y gallent fod. Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Diogelu bod her yn digwydd ac y byddai mwy o adborth oddi wrth Bwyllgorau Dethol yn cael ei groesawu ac atgoffodd y Pwyllgor bod y Cabinet hefyd yn cael ei ddal i gyfrif yn y cyngor llawn. Roedd yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc hefyd wedi cyfeirio at gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac Ysgolion i herio perfformiad a sicrhau ffocws ar ddeilliannau dysgwyr.
- Cafwyd her o ran dewis mesurau a ddewiswyd i ddangos tystiolaeth o gynnydd. Clywodd yr Aelodau fod ystod eang o fesurau yn dod o'r fframweithiau cenedlaethol a ragnodwyd gan Lywodraeth Cymru a chynlluniau busnes y gwasanaethau, a'u bod wedi'u cynnwys ar sail eu perthnasedd i'r cynllun corfforaethol.

Deilliannau

- Bod y Pwyllgor yn mynegi pryder i Aelodau'r Cabinet y gall dyfarniad o 'da' gael ei roi ar waith yn rhy gynnar weithiau, pan fyddwn yn dal i newid a chyn i welliannau ddod i'r amlwg.
- Bod cadeiryddion craffu yn cael cyfle i eistedd gyda'r tîm perfformiad i sicrhau dealltwriaeth o sut y cymhwysir y sgoriau gwerthuso a sut y mae'r dystiolaeth yn arwain at ddyfarniadau gan ddefnyddio'r fframwaith hunanwerthuso.
- Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld tystiolaeth, pan fydd ar gael, bod yr arian ychwanegol a roddir i gynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed yn cael yr effaith a ddymunir.

6. Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd: Craffu ar yr Adroddiad Blynyddol (gellir cyrchu'r Adroddiad Blynyddol trwy glicio "Go to this Sway" yn yr adroddiad clawr).

- Mae hwn yn ddull newydd o ymdrin â'r adroddiad blynyddol. Mae'r penawdau a ddefnyddir yn safonol ledled Cymru, fodd bynnag eglurodd y Prif Swyddog ei bod yn defnyddio Microsoft Sway i gynhyrchu dogfen fwy rhyngweithiol tra'n cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a ddarparwyd gan bob rhan o'r gweithlu, er mwyn rhoi tystiolaeth i ddangos sut y mae'r chwe safon ansawdd a amlinellir yn yr adroddiad yn cael eu bodloni. Mae'r rhain yn atodol i'r naratif craidd a gynhyrchwyd gan y Prif Swyddog.
- Siaradodd y Prif Swyddog drwy benawdau'r penodau a thynnodd sylw at nifer o adrannau penodol.

Herio gan Aelodau

- Roedd her ynghylch sut y bydd yr Aelodau'n gwybod beth yw'r gwahaniaethau pan fyddant yn edrych yn ôl ar y cynnydd yr adeg hon y flwyddyn nesaf ac a yw'r fformat hwn yn ei gwneud yn anos craffu. Clywodd yr Aelodau fod yr adroddiad yn cynnwys cymysgedd o dystiolaeth feintiol ac ansoddol. Mae mesurau confensiynol yn dal yn rhan o'r adroddiad a gellir eu gweld drwy ddolen. Eglurwyd hefyd y gellir rhannu'r pecyn sleidiau a'r ffilmiau byrion planedig yn rhwydd gyda'r gymuned a'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae gan Sway offer hefyd sy'n gwneud y cynnwys yn fwy hygyrch.
- Roedd y Pwyllgor am gael esboniad manylach am y gwaith sy'n digwydd i weddnewid y niferoedd presennol sy'n cynyddu yn y gwasanaethau plant. Eglurwyd y gall gweithwyr cymdeithasol gyfeirio at dîm arbenigol i gael ymyriad â ffocws a ddylai fynd ati i ymateb i achos. Mae hwn yn dîm sydd ag adnoddau dwys, sy'n gweithio gyda niferoedd bach o bobl ac yn gweithio i gadw plant o fewn teulu.
- Gofynnodd yr Aelodau am esboniad o'r cysylltiadau rhwng tlodi a'r rhai sy'n ymuno â'r system gofal. Esboniwyd bod cydberthynas rhwng y data, ond er y gall tlodi roi pwysau aruthrol ar deuluoedd nid oes cyswllt achosol. Mae rhai o'r materion hyn hefyd yn pontio'r cenedlaethau.
- Roedd her ynghylch a oedd y blaenoriaethau eang yn ei gwneud hi'n anos gweld manylion yr hyn a oedd yn cael ei gyflawni ac i'r Aelodau ddwyn swyddogion i gyfrif, er enghraifft maethu. Eglurwyd bod llawer iawn o fanylion ac mae hyn wedi'i gynnwys mewn themâu cyffredinol ond mae'r manylion o dan y rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac mae hyd yn oed mwy o fanylion ar gael yng nghynlluniau gwasanaeth timau
- Heriodd yr Aelodau lefel yr oedi wrth drosglwyddo gofal ac anawsterau darparu gwasanaethau mewn rhai ardaloedd ac a arweiniodd hyn at loteri cod post. Eglurwyd bod y sefyllfa yn fwy o broblem nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol. Mae cysylltiadau ag anawsterau gyda'r farchnad annibynnol ar gyfer gofal cartref lle mae'n

anos sicrhau darpariaeth. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u targedu gyda phrosiectau penodol, er enghraifft 'Troir Byd Ben i Waered'.

- Heriodd yr Aelodau a oedd y lefelau ffioedd a oedd yn cael eu talu gan awdurdodau lleol i ddarparwyr gofal preifat yn creu risg nad oedd darparwyr gofal yn gynaliadwy; ceisiwyd sicrwydd bod darparwyr yn economaidd gadarn a'r effaith ar bobl os bydd y busnes yn mynd i'r wal. Clywodd yr Aelodau fod swyddogion yn cwrdd â darparwyr ym mhob ardal yn rheolaidd i ystyried recriwtio, cadw a hyfywedd. Mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo fel rhan o'r prosiect 'Troir Byd Ben i Waered' yn golygu comisiynu mewn ffordd sy'n seiliedig ar safle sy'n gwneud y sector yn fwy cynaliadwy ac yn cydnabod y costau gwahanol mewn gwahanol rannau o'r Sir.

Deilliannau

- Gofynnodd yr Aelodau i'r mesurau a'r targedau gael eu cynnwys fel Atodiad er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch gyda chysylltiadau clir â'r safonau pan fydd hyn yn cael ei gymryd i'r Cyngor.
- Nododd Aelodau y gallai fod angen rhoi hyfforddiant ar Microsoft Sway os yw hyn i gael ei ddefnyddio'n fwy yn y dyfodol
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yn bosibl casglu data pellach ar gefndir economaidd-gymdeithasol plant sy'n mynd i ofal i ddeall yn well y cysylltiadau rhwng gofal a thlodi.
- Nodwyd y sefyllfa bresennol o ran oedi wrth drosglwyddo gofal a chaiff adroddiad llawn ar ofal yn y cartref ei gyflwyno yng nghyfarfod llawn nesaf y Pwyllgor Dethol Oedolion.
- Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn gofyn am unrhyw fyfyrddau pellach.

The meeting ended at **4.25 pm**